



South East Wales Safeguarding Children Board
Working Together For Children

Esgeuluso Plant Canllawiau Ymarfer

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	Tudalen 2
2. Diffiniadau	Tudalen 2
3. Y Rhesymau dros Esgeuluso Plant.....	Tudalen 3
4. Effaith Esgeulustod	Tudalen 5
5. Nodi Esgeulustod: Arwyddion a Dangosyddion	Tudalen 6
6. Penderfyniadau, y Camau Nesaf ac Atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol	Tudalen13
7. Cynllunio, Adolygu a'r Defnydd o Goruchwyliaeth.....	Tudalen 17
8. Cynghorion Gorau ar gyfer Gweithio gydag Esgeulustod.....	Tudalen 19
Atodiad 1 (Fframwaith Aseu).....	Tudalen 22
Atodiad 2 (Diwrnod ym Mywyd Plentyn).....	Tudalen 27
Atodiad 3 (Siart Arsylwi ar Ryngweithiad).....	Tudalen 29
Atodiad 4 (Gwerthusiad)	Tudalen 30
Atodiad 5 (Llyfryddiaeth a Chyfeiriadau).....	Tudalen 32

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r canllaw aml-asiantaeth hwn ar gyfer ymarferwyr y mae eu gwaith yn golygu eu bod yn dod i gyswllt â phlant a'u rhieni/gofalwyr. Nod y canllaw ymarfer aml-asiantaeth hwn yw sefydlu dealltwriaeth gyffredin a throthwy cyffredin ar gyfer ymyrryd mewn achosion lle mae esgeuluso plant yn peri pryder. At ddibenion y ddogfen hon, mae plentyn yn berson o dan 18 oed.
- 1.2 Mae ymchwil cenedlaethol (Stevenson 2007; Howarth 2007) ac ystadegau (www.unedddatacymru.gov.uk) yn nodi, er bod nifer yr achosion o esgeuluso corfforol, rhywiol ac emosiynol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi gostwng, mae nifer y cofrestriadau o esgeuluso wedi codi'n raddol dros y degawd diwethaf.
- 1.3 Yn genedlaethol, amcangyfrifir bod rhwng 80 a 100 o blant y flwyddyn yn marw o ganlyniad i gam-drin ac esgeuluso, gyda chyfradd uchel o orgyffwrdd rhwng esgeuluso a mathau eraill o gam-drin (Brandon ac eraill, 2008, DSSF).
- 1.4 Ar draws y rhanbarth, mae yna nifer o achosion o blant mewn angen lle mae esgeuluso yn elfen ynddynt.
- 1.5 'Neglect is not only damaging in early years, its effects in teenage years are often overlooked'. (Child Neglect in 2011. Adroddiad blynyddol gan Action for Children mewn partneriaeth â Phrifysgol Sterling, 2011).
- 1.6 Bwriedir i'r ymarfer gyd-fynd â'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000) yn hytrach na'i ddisodli. Mae'n tynnu ar waith ymchwil cenedlaethol a lleol ar esgeuluso plant, a'i nod yw helpu ymarferwyr i lunio barn ar eu hymyrraeth hwy eu hunain.
- 1.7 Mae'r canllaw ymarferol yn ceisio amlygu rhai o'r anawsterau sy'n cael eu profi wrth weithio i fynd i'r afael ag esgeuluso ac mae'n awgrymu ffyrdd i'w hosgoi neu eu hateb. Fodd bynnag, ni all unrhyw ganllaw ddarparu atebion i bob amgylchiad neu anhawster, a nod yw canllaw yw cefnogi'r defnydd o farn broffesiynol ym mhob cam o'r ymyriadau gyda theuluoedd.

2. Diffiniadau

- 2.1 "Methiant cyson i fodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn yw esgeulustod, sy'n debygol o arwain at nam difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall olygu methiant rhiant neu ofalwr i ddarparu digon o fwyd, cysgod neu ddillad, methiant i ddiogelu plentyn rhag niwed neu berygl corfforol, neu fethiant i sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth feddygol addas. Gall hefyd olygu esgeulustod, neu ddiffyg ymateb, i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn. Mae esgeuluso plant ifanc yn ddifrifol yn effeithio'n niweidiol ar allu plant i ffurfio ymlyniad ac fe'i cysylltir ag amhariad mawr ar dwf a datblygiad deallusol. Gall esgeulustod cyson arwain at nam difrifol i iechyd a datblygiad, ac anawsterau hirdymor wrth weithredu'n gymdeithasol, creu perthynas a chynnydd addysgol. Gall plant a esgeuluswyd ddioddef o ddiffyg hunan-barch, teimladau o fod heb eu caru ac wedi'u hynysu. Gall esgeulustod arwain hefyd, mewn achosion eithafol, at farwolaeth. Mae effaith esgeulustod yn amrywio yn ôl hyd cyfnod esgeuluso'r plant, oed y plant, a sawl math o ymddygiad esgeulus y mae'r plant wedi ei ddioddef."

(Amddiffyn Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2006, t.139, a.6.14).

Mae'r diffiniad hwn yn pwysleisio pwysigrwydd angen plentyn i gael gofal seicolegol ac emosiynol yn ogystal â gofal corfforol.

- 2.2 Anaml iawn y bydd esgeuluso plant yn weithred fwriadol o greulondeb, fodd bynnag, mae yna adegau pan fydd esgeulustod yn cael ei gyflawni'n ymwybodol gan riant. Yn amlach, mae esgeulustod yn cael ei ddiffinio fel achos pan fydd gofalwyr y plentyn yn hepgor gofal, pan na fydd rhieni yn gallu cyflawni anghenion eu plentyn neu blant yn gyson am resymau gwahanol.

2.3 Mae'r mathau canlynol o esgeulustod wedi'i nodi yn Howarth, J. 2007

- **Esgeulustod meddygol** pan fydd gofalwyr yn lleihau neu'n gwadu salwch neu anghenion iechyd plentyn, neu'n esgeuluso i roi meddyginiaeth neu driniaethau. Mae'n cynnwys esgeuluso pob agwedd ar ofal iechyd yn cynnwys gofal deintyddol, optegol, therapi iaith a lleferydd a ffisiotherapi.
- Mae **Esgeulustod maethol** fel arfer yn gysylltiedig â darpariaeth annigonol o fwyd ar gyfer twf normal, sy'n arwain at "fethiant i ffynnu". Mae cynnydd wedi bod yn nifer yr achosion o esgeulustod maethol sy'n deillio o ddietau gwael a diffyg ymarfer corff, sy'n gallu arwain at ordewdra, sy'n cynyddu'r risgiau i iechyd pan fyddant yn oedolion.
- Gellir diffinio **Esgeulustod emosiynol** fel "hostile or indifferent parental behaviour which damages a child's self-esteem, degrades a sense of achievement, diminishes a sense of belonging and stand in the way of healthy, vigorous and happy development". Dyma yw canlyniad anfwriadol ymddygiad esgeulus gofalwr (Iwaniec, 1995).
- Mae **Esgeulustod addysgol** yn cynnwys gofalwyr yn methu â chydymffurfio â gofynion y wladwriaeth, ond mae hefyd yn cynnwys agweddau cyffredinol addysg megis darparu amgylchedd ysgogol; dangos diddordeb yn addysg y plentyn a chefnogi eu haddysg, yn cynnwys sicrhau bod unrhyw anghenion addysgol arbennig yn cael eu cyflawni.
- Mae **Esgeulustod corfforol** yn cyfeirio at gyflwr budr y cartref, diffyg glendid, diffyg gwresogi, dodrefn a dillad gwely annigonol neu sydd wedi torri. Gallai gynnwys dillad gwael neu annigonol, sy'n golygu bod y plentyn yn wahanol i'w gyfoedion, a allai arwain at unigedd neu fwlio. Mae hefyd yn cyfeirio at y diffyg diogelwch yn y cartref, amlygiad i sylweddau, diffyg gard tân neu giatiau diogelwch, gwifrau trydan a socedi agored ac yn y blaen.
- Mae **Methiant i Ddarparu Goruchwyliaeth ac Arweiniad** yn cyfeirio at fethiant y gofalwr i ddarparu lefel o arweiniad a goruchwyliaeth sydd ei hangen er mwyn sicrhau bod y plentyn yn ddiogel yn gorfforol, ac wedi'i ddiogelu rhag niwed.

3. Y Rhesymau dros Esgeuluso Plant

3.1 Mae'r mwyafrif o rieni yn gofalu'n dda am eu plant, yn aml mewn amgylchiadau anodd, gyda chefnogaeth eu teulu a'u ffrindiau os bydd angen. Mae nifer o blant yn ein cymuned yn wynebu'r risg y bydd eu hiechyd neu eu datblygiad yn cael ei esgeuluso am nifer o resymau megis digartrefedd, diweithdra, tlodi neu anhawster penodol o fewn y teulu. Bydd angen cymorth ar rai teuluoedd gan wasanaethau o ganlyniad i'w anawsterau, er mwyn sicrhau bod eu plant yn derbyn gofal digonol. Bydd angen gwasanaethau cymorth cynhwysfawr ar nifer fach o blant, o ganlyniad i amgylchiadau cymhleth neu ddifrifol eu teuluoedd, er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn gofal digonol trwy gydol eu plentyndod, ac efallai y bydd angen ymyrraeth tymor hir arnynt.

3.2 Mae nifer o blant yn ein cymuned yn wynebu'r risg y bydd eu hiechyd neu eu datblygiad yn cael ei esgeuluso am nifer o resymau megis digartrefedd, diweithdra, tlodi neu anawsterau penodol yn y teulu. Mae gwaith ymchwil lleol a chenedlaethol wedi nodi nifer o ffactorau a allai fod yn gysylltiedig â phroffil rhieni'r plant hynny sy'n wynebu'r risg o gael eu hesgeuluso. Gall y ffactorau hyn gynnwys unrhyw un o'r ffactorau canlynol neu gyfuniad ohonynt:

- perthnasau treisgar / cam-drin domestig
- rhieni yn camddefnyddio alcohol a sylweddau
- anabledd dysgu rhiant
- salwch meddwl rhiant neu ofalwr
- cyfnodau mewn gofal awdurdod lleol fel plant
- hunan-barch a hunan hyder isel y fam
- profiad gwael o dderbyn gofal yn ystod plentyndod y rhieni eu hunain

- problemau iechyd yn ystod beichiogrwydd, geni cyn amser a babi pwysau isel
- profiadau o golled neu brofedigaeth sylweddol
- unigedd a diffyg cymorth
- rhieni ifanc yn eu harddegau

3.3 Gall anawsterau y bydd rhieni yn eu profi, o ganlyniad i nodweddion sylfaenol, gysylltu i esgeulustod plant oherwydd, er enghraifft:

- Diffyg gallu'r rhieni i ddarparu gofal corfforol neu emosiynol
- Mae problemau'r rhieni mor aruthrol neu ddyrys ni allant flaenoriaethau anghenion eu plant uwchlaw eu hanghenion hwy
- Diffyg gwybodaeth neu sgiliau'r rhieni i ddarparu amgylcheddau digonol o ofal
- Nid oes gan y rhieni unrhyw fodelau da ar sut i fagu plant
- Nid oes rhwydweithiau cymorth ar waith i 'wneud iawn' am y diffygion yn y brif berthynas ofal

3.4 Y Rhieni yn Camddefnyddio Sylweddau ac yn Esgeuluso

Mae gwaith Niwed Cudd (Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Cyffuriau, 2003) yn pwysleisio'r berthynas rhwng rhieni'n camddefnyddio sylweddau ac esgeuluso plant. Wrth gynnal asesiadau, dylai ymarferwyr gofio'r posibilrwydd bod rhieni yn ceisio cuddio eu camddefnydd o sylweddau/alcohol.

3.5 Mae esgeulustod yn digwydd yn aml mewn teuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Fodd bynnag, mae nifer o rieni sy'n byw mewn tlodi yn darparu cartrefi diogel a safonau rhianta uchel. **Nid yw tlodi ynddo'i hun yn ddangosydd esgeulustod.** Yr enghraifft a ddefnyddir yn aml i ddangos hyn yw, pe byddai oergell newydd yn cael ei darparu, a fyddai'r plant yn derbyn maeth gwell neu ofal emosiynol gwell? Y plant sy'n wynebu'r risg fwyaf yw'r rhai y mae tlodi emosiynol y rhieni eu hunain mor uchel, fel nad ydynt yn gwybod sut i fod yn rhiant na deall anghenion eu plant.

3.6 Er na fydd plant sy'n cael eu hesgeuluso o reidrwydd yn datblygu i fod yn rhieni sydd hefyd yn esgeuluso, mae gwaith ymchwil a phrofiad ymarferol yn nodi'n glir natur rhyng-deuluol llawer o'r achosion o esgeulustod. Felly, gall ymyrraeth briodol gyfrannu at atal y cylch o esgeulustod rhyng-genedlaethol.

3.7 Perthnasau Rhieni a Phlant ac Esgeulustod

Ystyrir bod creu ymlyniadau cadarnhaol yn elfen sylfaenol ym mhob maes yn natblygiad plant. Mae ymlyniad 'diogel' yn benodol, yn galluogi plant i ddysgu'n raddol sut i fod yn annibynnol a hyderus wrth ddelio â phrofiadau a heriau newydd. Mae ymlyniadau da yn dibynnu ar allu rhieni'r plentyn i fod ar gael yn gorfforol ac yn emosiynol, yn ddibynadwy ac yn garedig (gweler Fahlberg 1994). Efallai na fydd gan rai rhieni y rhinweddau hyn am nifer o resymau, ac o ganlyniad i hynny bydd yr ymlyniadau y bydd eu plant yn eu gwneud wedi'u gwyrddroi.

3.8 Mae'n bwysig cydnabod y gallai nifer o heriau ychwanegol fod yn gysylltiedig â chreu ymlyniadau cadarnhaol sy'n benodol i un plentyn. Un enghraifft o hyn yw pan allai'r plentyn fod ag anabledd difrifol neu salwch cronig sydd wedi arwain at gyfnod hirdymor yn yr ysbyty.

3.9 Ceir cydnabyddiaeth gynyddol nad oes pwyslais digonol wedi'i roi ar arwyddocâd esgeulustod emosiynol a'r berthynas rhwng esgeulustod emosiynol a phatrymau ymlyniad negyddol. Fel rhan o'r broses asesu, dylai ymarferwyr edrych yn agos ar anawsterau neu wyrddroadau i'r patrymau ymlynu a bondio rhwng plentyn a'i brif ofalwyr, oherwydd gallai hyn fod wrth wraidd materion o esgeuluso plant.

- 3.10** Mae patrymau ymlynu negyddol yn arbennig o amlwg ymhlith plant sydd wedi'u hesgeuluso pan nad yw'r rhieni 'ar gael yn seicolegol' i'w plant. Gall hyn arwain at aflonyddwch emosiynol ac ymddygiadol yn eu datblygiad dilynol.

4. Effaith Esgeulustod

Mae ymarferwyr ac academyddion yn gytûn y gall esgeulustod cronig a difrifol gael effeithiau trychinebus ar blentyndod a datblygiad plentyn. Mae natur gyson esgeulustod yn gyrydol a chronnus a gall arwain at niwed parhaol (Hildyard a Woolfe, 2002). Mae ymchwil yn dangos yn glir os bydd babanod a phlant ifanc yn cael eu hamlygu i ofal esgeulus sy'n arwain at ysgogiad gwael yn ystod 3 blynedd gyntaf bywyd, mae'r llwybrau nerfol sydd angen ysgogiad yn debygol o grebachu ac efallai na fydd plant byth yn cyflawni eu potensial (Perry, 2004).

- 4.1** Mae effaith esgeulustod ar ddatblygiad plentyn yn unigryw i bob plentyn, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol, natur yr esgeulustod a'u lefel o ddycnwch.

Ymhlith yr heriau y gallai plant sy'n cael eu hamlygu i esgeulustod eu profi yw;

- Niwed i lwybrau nerfol yn yr ymennydd;
- Oedi i ddatblygiad a diffyg ffyniant;
- Awch bwyd a syched;
- Pwysau isel;
- Diffyg gofal meddygol priodol, methu apwyntiadau meddygol a phoen sy'n cael ei achosi gan gyflwr nad yw'n derbyn triniaeth;
- Diogelwch annigonol rhag niwed emosiynol, corfforol neu rywiol;
- Poen / cywilydd sy'n cael ei achosi gan ddillad amhriodol neu ddillad nad ydynt yn ffitio'n dda;
- Anawsterau i ganolbwyntio a gwneud ffrindiau yn yr ysgol;
- Diffyg cyfleoedd i gymdeithasu;
- Mwy o debygolrwydd y bydd ganddynt iechyd meddwl gwael a hunan-barch isel;
- Teimladau o unigedd a gwrthodiad.

- 4.2** Ymhlith yr heriau ychwanegol y mae plant sy'n byw mewn amgylchiadau o esgeulustod pan fydd camddefnydd alcohol neu sylweddau'r rhieni yn berthnasol, mae (gweler Niwed Cudd, 2003):

- Bod yn gaeth i sylweddau ar enedigaeth;
- Pryder ynglŷn â lles gofalwyr/rhieni;
- Amlygiad i oedolion peryglus ac ymddygiad brawychus neu anghyson oedolion;
- Disgwyliad i gadw cyfrinachau;
- Bod yn rhan o'r broses o gyflenwi sylweddau;
- Dechrau defnyddio sylweddau yn ifanc;
- Bod yn ofalwr ifanc.

- 4.3** Gall esgeulustod gael effaith sylweddol ar ddatblygiad emosiynol a chorfforol plentyn, a gall yr effeithiau hyn bara nes y byddant yn oedolion. Mae'n effeithio ar bob agwedd ar iechyd a datblygiad y plentyn, yn cynnwys eu dysgu, eu hunan-barch, eu gallu i ffurfio ymlyniadau a sgiliau cymdeithasol.

Mae gwaith ymchwil gan Harriet Ward ac eraill (2010) wedi canfod bod bywydau plant yn gwella'n sylweddol os bydd y rhieni'n gwneud newidiadau yn ystod chwe mis cyntaf eu bywydau ac yn aml yn ystod beichiogrwydd.

5. Nodi Esgeulustod: Arwyddion a Dangosyddion

- 5.1** Y cam cyntaf i ymarferwyr sy'n gweithio gydag esgeulustod yw **nodi'r** plant hynny a allai fod mewn perygl a gallu **mynegi'r dystiolaeth ar gyfer hyn**.
- 5.2** Gallai pryderon ar y cam hwn ddeillio o un digwyddiad penodol (e.e. plentyn ifanc yn cael ei adael heb oruchwyliaeth); pryder dros newid mewn ymddygiad neu gyflwyniad y plentyn, neu efallai bod pryderon wedi bodoli ers cryn amser.
- 5.3** Efallai bod pryderon ynglŷn â:
- y ffordd mae plentyn yn edrych yn nhermau glendid, taclusrwydd a dillad;
 - nid yw'r plentyn yn cael ei fwydo'n ddigonol;
 - lefelau hylendid yn y cartref.
 - nid yw'r plentyn yn cael ei gadw'n ddiogel.
 - ymatebion emosiynol ac ymddygiadol y plentyn.
- 5.4** Mae esgeulustod, yn fwy nac unrhyw fath arall o gam-drin, yn aml yn ddibynnol ar sefydlu pwysigrwydd casglu darnau o wybodaeth ffeithiol, sy'n ymddangos yn fach ac yn anhrawiadol sydd, o'u casglu at ei gilydd, yn creu darlun cyffredinol o blentyn sy'n cael ei esgeuluso.
- 5.5** Gall y Fframwaith Asesu ddarparu dull gweithredu ar gyfer edrych ar arwyddion a dangosyddion esgeulustod. Gall helpu'r ymarferydd i drefnu gwybodaeth, dadansoddi ffactorau risg, casglu a rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau perthnasol, yn ogystal â darparu rhesymeg ar gyfer beth fydd yr asiantaeth yn penderfynu ei wneud ynglŷn â'r pryderon a nodwyd.
- 5.6** Mae'r Fframwaith Asesu yn cynnig system i gasglu gwybodaeth ynglŷn â'r tri phrif faes ym mywyd teuluoedd, sef:
- Anghenion datblygiadol y plentyn.
 - Gallu'r rhieni i fagu plant.
 - Ffactorau teuluol ac amgylcheddol.

5.7 Mae Ffigur 1 yn dangos sut mae'r asesiad yn cael ei drefnu:



- [Health] Iechyd
- [Basic Care] Gofal Sylfaenol
- [Ensuring Safety] Sicrhau Diogelwch
- [Emotional Warmth] Sicrwydd Emosiynol
- [Stimulation] Ysgogiad
- [Guidance and Boundaries] Arweiniad a Ffiniau
- [Stability] Sefydlogrwydd
- [Family History and Functioning] Hanes a Gweithrediad y Teulu
- [Wider Family] Teulu Ehangach
- [Housing] Tai
- [Employment] Cyflogaeth
- [Income] Incwm
- [Family's Social Integration] Integreiddiad Cymdeithasol y Teulu
- [Community Resources] Adnoddau Cymunedol
- [Selfcare Skills] Sgiliau Hunanofal
- [Social Presentation] Cyflwyniad Cymdeithasol
- [Family and Social Relationships] Perthnasau Teuluol a Chymdeithasol
- [Identity] Hunaniaeth
- [Emotional and Behavioural Development] Datblygiad Emosiynol ac Ymddygiadol
- [Education] Addysg
- [Health] Iechyd
- [Child's Developmental Needs] ANGHENION DATBLYGIADOL Y PLENTYN
- [Parenting Capacity] Y GALLU I FAGU PLANT
- [Family and Environmental Factors] FFACTORAU TEULUOL AC AMGYLCHEDDOL
- [CHILD Safeguarding and promoting welfare] Diogelu a hyrwyddo lles y PLENTYN

5.8 Dylai ymarferwyr feddwl mewn ffordd gyfannol ar draws y cysylltiadau creu fframwaith rhwng y parthau er mwyn ystyried sut y gallai un nodwedd neu elfen ddylanwadu ar un arall. Gallai hyn fod mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol; gallai'r cysylltiad rhwng ffactorau ddwysáu neu leddfu ein pryderon.

5.9 Anghenion Datblygiadol y Plentyn

Mae'r ffordd mae plant yn cyflwyno eu hunain yn gorfforol, yn gymdeithasol neu'n emosiynol, sut maent yn perfformio yn yr ysgol neu a ydynt yn cyrraedd cerrig milltir yn eu datblygiad yn gallu rhoi darnau pwysig o wybodaeth i ymarferydd am fywyd a phrofiad y plentyn hwnnw a'r ffordd mae ef neu hi yn cael ei fagu/magu.

5.10 Gall rhestrau o nodweddion ymddygiadol a chyflwyniadol ddarparu ysgogiadau a rhestrau gwirio pwysig yn nhermau anghenion a nodweddion y plentyn, a allai ddangos eu bod yn cael eu hesgeuluso. Fodd bynnag, mae angen ystyried y rhain ochr yn ochr ag ystyriaethau eraill megis oedran y plentyn, cam eu datblygiad, a oes ganddynt anabledd neu ers pryd maent wedi bod yn rhan o fywyd y plentyn.

5.11 Un peth sy'n arbennig o bwysig i ymarferwyr, yw gwybodaeth am blant unigol drwy wrando ac arsylwi, ymgysylltu a meithrin perthnasau gyda phlant a'u teuluoedd er mwyn i ni glywed ac ymateb i'r hyn maent yn ei ddweud wrthym. Mae angen i ni allu meddwl o safbwynt y plentyn ac ystyried ein pryderon proffesiynol yn nhermau beth y gallant ei feddwl i'r plentyn unigol hwnnw? Beth yw'r effaith arnynt hwy a beth fydd effaith hyn ar eu hanghenion datblygiadol yn awr ac yn y dyfodol?

5.12 Cynnal Ffocws ar y Plentyn

Mae'r **Fframwaith Asesu** yn amlygu'r pum elfen sy'n gysylltiedig â gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant, sef:

- Gweld plant
- Arsylwi plant
- Ymgysylltu â phlant
- Siarad gyda phlant

Blwch Arfer Da 2: Cynnal Ffocws ar y Plentyn

- Dylai'r plant gael eu gweld yn yr uned deuluol, ac ar eu pen eu hunain.
- Dylid gofyn i'r plant lle y byddant yn teimlo'n gyfforddus yn cwrdd â chi.
- Dylid siarad gyda'r plant a'u harsylwi er mwyn pennu lefel yr ymlyniad sydd ganddynt gyda'u rhieni a'u brodyr a'u chwiorydd ac aelodau eraill y teulu.
- Dylid ystyried pob plentyn yn y teulu. Sut maent yn wahanol neu'n debyg?
- A yw unrhyw un o'r plant yn y teulu hwn yn fwy gwydn nac eraill i'r gofal maent yn ei dderbyn ac os ydynt, sut? A pham?
- Disgrifiwch bob un o'r plant yn nhermau ymddangosiad a phersonoliaeth
- Rhestrwch gryfderau a nodweddion cadarnhaol y perthnasau yn y teulu
- Rhestrwch unrhyw anafiadau sydd gan y plentyn yn gronolegol yn cynnwys anafiadau y mae'r rhiant neu'r gofalwr wedi'u hesbonio
- Rhestrwch eich pryderon ynglŷn ag anghenion datblygiadol y plentyn gan ddefnyddio'r dimensiynau yn y Fframwaith Asesu.
- Ystyriwch a chynlluniwch sut y byddwch yn trafod eich pryderon gyda rhieni'r plentyn
- Gofynnwch i'r rhieni ddisgrifio eu plant yn unigol a thrafod beth maent yn ei hoffi amdanynt. Beth yw eu personoliaethau unigol? Beth maent yn hoffi ei wneud? Gall yr ymarfer hwn ddatgelu llawer am yr hyn mae'r rhieni yn ei wybod am eu plant, sut y gallant deimlo amdanynt a pha mor dda yw eu hymlyniadau.

5.13 Gallu i fagu plant

Wrth feddwl am rieni yn esgeuluso plentyn, rydym yn ceisio gofyn: ar gyfer y plentyn hwn, a yw'r rhieni yn diwallu anghenion y plentyn, ac os nad ydynt, beth allai fod yn cyfrannu at hynny?

5.14 Mae'r arwyddion a'r dangosyddion y gellir eu harsylwi fel nodweddion ymddygiadol yn cynnwys:

- Diffyg pryder ynglŷn â safonau ffisegol y cartref, sy'n llawer is na theuluoedd eraill, sydd weithiau'n gysylltiedig â gofal anifeiliaid yn y cartref;
- Methiant i gadw apwyntiadau iechyd rheolaidd ar gyfer y plant a hwy eu hunain;
- Methiant i ysgogi neu ryngweithio'n greadigol neu'n ddoniol gyda'r plant;
- Anhawster i arfer disgyblaeth a rheolaeth briodol dros y plant;
- Diffyg crebwyll ynglŷn â phwy i ymddiried gyda gofal y plant;
- Anawsterau ymlynu a bondio;
- Anawsterau i roi anghenion y plant yn gyntaf;
- Hunan-barch isel y rhieni;
- Perthnasau gwael neu ddinistriol gydag aelodau o'r teulu estynedig neu'r gymuned leol;
- Rhieni yn dweud wrthym nad ydynt yn ymdopi.

5.15 Mae'n bosibl bod yna faterion sylfaenol o dan yr wyneb megis iechyd meddwl gwael neu anawsterau dysgu sy'n lleihau'r gallu i fagu plant, naill ai dros dro neu ar sail fwy parhaol (cronig) er enghraifft, anghenion iechyd y rhieni neu anghenion eraill nad ydynt yn cael eu diwallu, camddefnyddio sylweddau neu effaith cam-drin domestig.

5.16 Wrth nodi esgeulustod, mae'n bosibl y bydd ymarferwyr hefyd yn ystyried sut mae rhieni yn rhyngweithio gyda gwasanaethau cymorth, p'un a ydynt yn fodlon derbyn cyngor ac arweiniad ac a ydynt yn gallu gweithredu hyn, neu a oes diffyg cymhelliant tybiedig neu lefel isel o atgasedd hyd yn oed. Os bydd ymgais wedi'i wneud yn y gorffennol, a wnaeth hyn weithio ai peidio? Os na wnaeth, beth allai fod wedi bod yn fwy defnyddiol? Beth yw eich barn am hyn? Gallai cronoleg aml-asiantaeth helpu i nodi patrymau o ddiffyg ymgysylltiad a phryderon hanesyddol ac a yw'r ymyriadau wedi arwain at newid cadarnhaol parhaol ai peidio.

5.17 Un o nodweddion cyffredin ymddygiad rhieni sy'n esgeulus iawn yw gofal â diffyg cysondeb a pharhad. Efallai y bydd cyfnodau byr pan fydd y gofal wedi gwella rhywfaint. Gallai hyn godi gobeithion y rhai sy'n darparu'r gwasanaethau, ond mae'r gwelliannau hyn yn rhai byrdymor fel arfer, a gallant greu ymdeimlad o anobaith i'r rhai sy'n cynorthwyo'r teulu. Dyma pam mae cronolegau da a gwybodaeth gadarn am hanes y teulu, yn cynnwys ymyriadau blaenorol y gwasanaethau, yn hollbwysig er mwyn gallu asesu esgeulustod.

5.18 Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol

Mae angen i ymarferwyr ystyried y canlynol yn y cyd-destun hwn wrth weithio gydag esgeulustod:

- Profiadau plentyndod y rhieni
- Perthnasau gyda'r teulu ehangach

- Hanes y teulu e.e. a fu unrhyw gyfraniadau yn y gorffennol, a oedd y rhain ar gyfer yr un problemau, beth oedd canlyniad y cyfraniadau hyn, a wnaeth y rhieni ymgysylltu ac ati
- Incwm
- Tai
- Integreiddiad cymdeithasol
- Mynediad at adnoddau e.e. adnoddau cymunedol da yn yr ardal hon, y mae'r teulu'n gallu eu defnyddio ac maent wedi arfer eu defnyddio
- Beth yw effaith y ffactorau uchod ar y plentyn, a sut mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar anghenion datblygiad y plentyn a gallu'r rhieni i fagu'r plant

Mae gwybodaeth bellach am ffactorau teuluol ac amgylcheddol ar gael yn atodiad 1.

5.19 Gweithio'n Sensitif gydag Amrywiaeth

Mae pob plentyn, a'u teuluoedd, yn unigryw. Bydd angen ystyried eu cefndir hiliol a diwylliannol, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw anabledd corfforol a/neu ddysgu yn yr asesiad. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn ymwybodol o'u gwerth personol hwy ac effaith bosibl hyn wrth weithio gyda theuluoedd.

Mae llenyddiaeth yn datgan rhybudd ynglŷn â diffyg ymyrraeth yn seiliedig ar yr ofn o fod yn feirniadol. Ni ellir esbonio na chyfiawnhau cam-drin plant ar sail arferion neu greddau diwylliannol gwahanol. Cyfeirir at gynnig esboniadau diwylliannol am gam-drin a rhieni esgeulus fel 'cultural misattribution' gan yr Arglwydd Laming yn ei ymchwiliad i farwolaeth Victoria Climbié.

I rai plant, mae gwahaniaethu yn rhan o'u bywydau bob dydd. Ni ddylai ymatebion asiantaethau i blant adlewyrchu nac atgyfnerthu'r profiadau o wahaniaethu - dylent weithredu i'r gwrthwyneb. Er enghraifft, mae'n bwysig iawn bod ymarferwyr yn defnyddio cyfieithwyr pan fydd angen a'u bod yn gwrandao ar safbwyntiau'r plant a'u bod yn gallu mynegi eu safbwyntiau yn eu hiaith gyntaf.

5.20 Peryglon cyffredin wrth weithio gydag esgeulustod

Wrth weithio gydag esgeulustod, dylai ymarferwyr ystyried y materion neu rwystrau canlynol er mwyn cynnal asesiadau ac ymyriadau effeithiol mewn achosion o esgeuluso.

- Methiant i arsylwi neu wrando ar blant a gweld y byd drwy eu llygaid hwy.
- Y gred y gellir mynd i'r afael ag esgeulustod drwy leddfu tlodi yn unig.
- Methiant i gydnabod plant fel rhan o'r gymuned ehangach, pan fydd eu hymateb posibl i'r plentyn sy'n cael ei esgeuluso yn golygu eu heithrio yn gymdeithasol.
- Ystyried barn pob plentyn yn yr un teulu, pan fydd angen asesiad unigol.
- Y gred bod magu plant yn rhywbeth greddfoll a naturiol ac felly mae'n rhaid bod ymddygiad rhieni yn gywir.
- Ofn o orfodi gwerthoedd proffesiynol a gwerthoedd dosbarth ar eraill.
- Gwneud rhagdybiaethau ynglŷn â hil a diwylliant, a allai bwysleisio'r risgiau yn annigonol neu'n ormodol.
- Ystyried esgeulustod fel rhywbeth anochel am na all y rhieni newid eu ffordd o fyw/ymddygiad.
- Datblygu systemau cred treiddiol sy'n datgan, cyhyd â bod y plant yn ymddangos yn hapus, mae hepgoriadau eraill yn eu gofal yn llai pwysig.
- Diffyg gwybodaeth o ganlyniadau a chanlyniadau hirdymor esgeulustod.

- Ymlyniad i'r gred yn hawliau'r oedolion i wneud penderfyniadau eu hunain, a allai wadu neu wrthdaro â hawliau a/neu fuddiannau gorau'r plentyn.
- Pwyslais gormodol ar oedolion sy'n agored i niwed, sy'n arwain at wadu anghenion y plant.
- Y gred na ellir cynnig unrhyw beth gwell i'r plant.
- Mae astudiaethau wedi dangos, pan fydd gan weithwyr proffesiynol safbwyntiau pendant am y teulu a'r plentyn, mae 'rheol o optimistaeth' yn datblygu, ac o ganlyniad i hyn, mae'n anodd i weithwyr newid eu safbwyntiau am y teulu. Gallai hyn ddigwydd er gwaethaf tystiolaeth gymhellol o esgeulustod a niwed sylweddol.
- Mae esgeulustod yn cael ei ystyried yn aml fel methiant y fam i ddarparu gofal oherwydd nad oes llawer o wybodaeth am y dynion mewn teuluoedd sy'n esgeuluso.

5.21 Crynodeb a'r camau nesaf

- Pan fydd pryderon ynglŷn ag esgeulustod posibl, edrychwch ar bob maes yn y Fframwaith Asesu a nodi'r dystiolaeth a'r ffactorau risg yr ydych chi'n credu sy'n dangos bod plentyn yn cael ei esgeuluso.
- Cofnodwch eich pryderon, ac edrychwch yn ôl dros eich nodiadau neu gofnodion asiantaeth.
- Yn ogystal â'ch pryderon chi, nodwch ffactorau neu gryfderau amddiffynnol, cymorth gan y teulu neu'r gymuned.
- Ystyriwch y pryderon yng nghyd-destun llinell amser neu gronoleg. A yw'r achosion dros bryderu yn arwahanol (wedi'u cyfyngu gan amser neu'n gysylltiedig â digwyddiad penodol)
- Ystyried safbwyntiau'r plentyn/person ifanc a'r rhieni.
- Gweithio gydag amrywiaeth mewn ffordd sensitif.
- Gwerthuso'r wybodaeth hon mewn cysylltiad â'r plentyn unigol a'i amgylchiadau ef/hamgylchiadau hi, ac amgylchiadau'r teulu.
- Gwerthuso'r wybodaeth mewn cysylltiad ag effaith hyn ar y plentyn yn awr a thros amser.
- Defnyddio goruchwyliaeth er mwyn gallu adlewyrchu'n feirniadol ar yr achos.
- Bod yn ymwybodol o gydymffurfiaeth guddiedig (pan fydd teuluoedd ond yn cydymffurfio am eu bod eisiau i'r gweithwyr proffesiynol adael eu bywydau). Unwaith eto, defnyddiwch oruchwyliaeth er mwyn cynorthwyo.
- Byddwch yn ymwybodol o fod yn or-obeithiol o allu'r rhieni i wneud a chynnal newidiadau angenrheidiol.
- 'Syndrom dechrau eto' – mewn rhai achosion, gall ymarferwyr gael anhawster i ddeall hanes sylweddol achos penodol, ac mae tuedd i 'ddechrau eto', o ganlyniad i hyn, ac nid ydynt yn ystyried patrymau cyfranogiad yn y gorffennol.

6. PENDERFYNIADAU, Y CAMAU NESAF AC ATGYFEIRIADAU I'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

- 6.1** Ar ôl nodi pryderon ynglŷn ag esgeulustod, bydd angen i ymarferwyr lunio barn ar lefel yr ymyrraeth sydd ei hangen (trothwyon) a beth ddylai ddigwydd nesaf. Mae'n rhaid i'r ymarferydd neu'r asiantaeth sydd wedi mynegi'r pryderon werthuso difrifoldeb eu pryderon a phenderfynu ar yr ymateb mwyaf priodol. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod nodi esgeulustod yn gynharach ac ymyrryd yn gynharach yn y sefyllfa yn arwain at ganlyniadau gwell i'r plant a phobl ifanc. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y grŵp oedran 0-3.
- 6.2** Mae Jan Horwarth (2006) yn datgan bod penderfynu a yw pryder am achos o esgeuluso plant yn cyfiawnhau atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol yn fater cymhleth, ac nid yw'n dibynnu'n gyfan gwbl ar wybodaeth a thystiolaeth o amgylchiadau'r plentyn, ond bod hyn yn dibynnu hefyd ar ffactorau personol a sefydliadol. Mae hefyd yn dibynnu ar eich barn broffesiynol a fydd yn seiliedig ar eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad chi.
- 6.3** Mae llunio barn ar atgyfeiriadau yn gallu achosi cryn bryder i ymarferwyr a gall greu tensiwn rhwng asiantaethau. Mae creu perthnasau da rhwng asiantaethau, datblygu dealltwriaeth o rolau a chapasiti'r asiantaethau dan sylw, a dealltwriaeth gyffredin ar drothwyon yn gallu helpu gyda hyn. Mae gallu mynegi ein pryderon yn glir drwy dynnu ar arwyddion a dangosyddion, ffactorau risg a gwybodaeth am effaith esgeulustod hefyd yn ddefnyddiol. Os ydych yn anfodlon â'r ymateb a gewch i'r atgyfeiriad, yna eich cyfrifoldeb proffesiynol chi yw herio hyn (cyfeiriwch at y protocol Datrys Anawsterau Proffesiynol Rhanbarthol).
- 6.4** Gallai penderfyniadau posibl ar ôl nodi esgeulustod gynnwys:
- Trafod eich pryderon gyda'r teulu a pharhau i gefnogi a monitro'r sefyllfa fel un asiantaeth.
 - Atgyfeirio i gael gwasanaethau cymorth ychwanegol.
 - Atgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant neu fel Plentyn mewn Angen neu
 - Atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant fel achos Amddiffyn Plant.
- 6.5** Os gwneir penderfyniad i **beidio** atgyfeirio'r achos i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r achos yn gallu cytuno ar gynllun gweithgarwch ar gyfer y pryderon neu gallant ddarparu rhywfaint o gymorth ychwanegol i'r teulu o'r adnoddau sydd ar gael yn lleol. Gallai penderfynu i beidio atgyfeirio fod yn ymateb priodol os credir bod posibilrwydd o ysgogi newid a fyddai er budd y plentyn a'r teulu, a phan fyddant yn credu y gellir rheoli'r risgiau i'r plentyn. Mae'n bwysig yn y sefyllfa oedd hyn bod gan y rhieni lefel o ddealltwriaeth a'u bod yn derbyn y pryderon proffesiynol a'r cymhelliant i weithio gydag eraill i wella'r sefyllfa. Dylech gofnodi eich penderfyniadau yn glir yn unol â pholisïau a systemau eich asiantaeth.
- 6.6** Bydd asiantaethau cymorth yn amrywio ar draws awdurdodau ac mae gwybodaeth bellach ar gael yng nghyfeiriadur Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn eich ardal.
- 6.7** Pan fydd teulu neu blentyn yn derbyn gwasanaethau cymorth penodol (e.e. Right From the Start) neu wasanaethau cyffredinol (e.e. Addysg, Ymwelydd Iechyd) o ganlyniad i bryderon am esgeulustod, mae'n bwysig iawn bod y cymorth hwn yn cael ei gynllunio, ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd a bod system dda ar gyfer cydgysylltu a chydweithrediad rhwng asiantaethau gwahanol. Gallai fod yn syniad da i'r bobl hynny sy'n gysylltiedig â'r teulu, e.e. ymwelydd iechyd, athro, gweithiwr Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, gweithiwr Dechrau'n Deg gwrdd i wneud hyn, a dylid

cynnwys y teulu yn y cyfarfod.

Mae canllaw arfer da ar gyfer cynllunio ac adolygu cymorth yn adran 7.

6.8 Os gwneir penderfyniad i gynnig cymorth heb atgyfeirio'r achos i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, dylech adolygu'r penderfyniad hwn yn rheolaidd gyda'ch goruchwyliwr neu reolwr llinell gyda'r ystyriaethau canlynol:

- A yw'r cynllun yn gweithio a pha wahaniaeth mae'n ei wneud?
- O ran yr arwyddion, dangosyddion a'r ffactorau risg a oedd wedi peri'r pryder yn wreiddiol, a fu unrhyw newid i'r rhain?
- A yw'n briodol gwneud atgyfeiriad Plentyn mewn Angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant?
- A oes unrhyw arwydd bod y plentyn mewn risg o niwed sylweddol ac y gallai fod angen ei amddiffyn? Os felly, dylech gyfeirio'r mater fel achos brys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant.

6.9 Bydd angen cyfeirio pryderon difrifol am les neu ddatblygiad plentyn bob amser i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, er mwyn gallu cynnal asesiad aml-asiantaeth er mwyn penderfynu a yw'r plentyn yn blentyn mewn angen a pha wasanaethau y gallai fod eu hangen.

6.10 Yn ogystal â'r wybodaeth ffeithiol am y plentyn a phob aelod o'u teulu, a'r rhesymau dros atgyfeirio, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant eisiau gwybod:

- Pa dystiolaeth sydd ar gael o'r effaith ar iechyd a diogelwch y plant? (Defnyddiwch ffeithiau ac arsylwadau, yn hytrach na theimladau a rhagdybiaethau. Dylech wahaniaethu rhwng ffeithiau a barn. Gallwch gynnwys gwybodaeth gan drydydd parti ond bydd angen i chi fod yn glir am hyn.)
- Beth sydd wedi digwydd sydd wedi arwain at yr angen i atgyfeirio'r teulu yn awr?
- Pam ydych chi'n credu bod hyn wedi digwydd, a beth yw'r achosion posibl?
- Beth mae'r atgyfeiriwr, os yw'n weithiwr proffesiynol arall, wedi'i wneud i geisio gwella'r sefyllfa?
- A yw'r rhiant yn gwybod eu bod yn cael eu hatgyfeirio a pha fath o help sydd ei angen arnynt neu maent yn disgwyl ei gael?

Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n atgyfeirio achosion i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant fynd i'r afael â'r cwestiynau uchod wrth gwblhau ffurflen atgyfeirio aml-asiantaeth.

Pryd mae angen cydsyniad

Pan nad oes angen cydsyniad

- Cyn unrhyw atgyfeiriad plant mewn angen.

Ystyrir bod plentyn mewn angen os:

- Yw'n annhebygol o gyflawni neu gynnal neu gael cyfle i gyflawni neu gynnal safon resymol o iechyd neu ddatblygiad heb i'r awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau iddo
- Mae ei iechyd neu ddatblygiad yn debygol o ddirywio'n arwyddocaol, neu ddirywio ymhellach, heb ddarparu gwasanaethau o'r fath; neu
- Mae'n anabl o dan Ddeddf Plant 1989 Adran 17(10).

- **Cydsyniad pwy sydd ei angen?**

Person â chyfrifoldeb rhiant

- Os bydd plentyn mewn risg sylweddol o niwed

- Os bydd ceisio cydsyniad yn cynyddu'r risg o niwed i blentyn neu berson ifanc

- Pan fydd yn amhosibl cael cydsyniad, e.e. pam na ellir cysylltu â'r rhai â chyfrifoldeb rhiant ac mae'r pryderon yn rhai brys

6.11 Gwneud atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant – ceisio cydsyniad rhiant

Mae angen i weithwyr proffesiynol sy'n cyfeirio eu pryderon i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant benderfynu a oes angen cydsyniad y person â chyfrifoldeb rhiant. Ystyrir cydsyniad yn y tabl isod.

6.12 Pan nad ydych yn sicr ynglŷn â'r pryderon, peidiwch ag oedi cyn atgyfeirio.

Gallai fod yn ddefnyddiol ystyried unrhyw gyfyng-gyngor atgyfeirio gyda:

- Eich rheolwr llinell/goruchwyliwr;
- Yr unigolyn yn yr asiantaeth sy'n gyfrifol am amddiffyn plant;
- Rheolwr y tîm atgyfeirio yn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol Plant

6.13 Mae esgeulustod rhieni sy'n cynrychioli '**niwed sylweddol**' yw esgeulustod sy'n :

- **ddifrifol**
- **cyson**
- **cronnus**
- **cronig neu aciwt**
- **ymwrthol i ymyrraeth**

6.14 Bydd angen ymdeimlad clir o sut mae'r gweithredoedd hyn o esgeulustod yn methu â diwallu anghenion y plentyn a sut mae hyn, yn ei dro, yn cysylltu â'r niwed sy'n cael ei achosi. Bydd iechyd, lles a diogelwch uniongyrchol yn cael ei ystyried, yn ogystal â niwed datblygiadol a fydd yn effeithio'r plentyn yn y dyfodol. **Y mater pwysig yw y gall esgeulustod hirdymor achosi mwy o oedi a nam i ddatblygiad nac unrhyw fath arall o gamdriniaeth.**

6.15 Mewn teuluoedd lle mae esgeulustod yn digwydd fel mewn sefyllfaoedd cymhleth eraill, mae'n hawdd anghofio am y plentyn oherwydd anghenion y rhieni neu ffactorau eraill. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gweld ac arsylwi'r plentyn mewn amgylchiadau cymhleth ac afreolus fel hyn. Dylech barhau i ofyn y cwestiwn: Sut fywyd sydd gan y plentyn hwn, yn byw gyda'r rhieni/gofalwyr hyn yn y cartref hwn?

6.16 I gael gwybodaeth bellach am brosesau amddiffyn plant, ewch i Ran 3 Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan – www.awcporg.org.uk

7. CYNLLUNIO, ADOLYGU A DEFNYDD O ORUCHWYLIAETH

- 7.1** Dylai cynlluniau aml-asiantaeth fod mewn lle ar gyfer plant yr ystyrir eu bod mewn angen neu rai agored i niwed oherwydd camdriniaeth. Dylai cynllun fod mewn lle beth bynnag yw lefel y gwasanaeth neu'r ymyrraeth a gynigir, boed yn ymyrraeth sengl neu gan aml-asiantaeth. Dylid llunio'r cynllun gyda'r teulu, gan gynnwys y plentyn lle bynnag bo modd, ynghyd ag unrhyw asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig.
- 7.2** Dylai'r cynllun nodi manylion y canlyniadau a geisir, y gwasanaethau a gynigir i'r teulu a pha bryd mae angen y newidiadau a'r amserlen ar gyfer y newidiadau sydd i'w cyflawni.
- 7.3** Ar ôl asesu'r meysydd ble mae'r rhianta'n esgeulus, mae'n hanfodol bod ffocws penodol i'r gwaith dilynol. Dylai'r cynllun fod yn un **CAMPUS**:
- **C**yraeddadwy
 - **A**mserol
 - **M**esuradwy
 - **P**enodol
 - **U**chelgeisiol
 - **S**ynhwyrol
- 7.4** Mae plant gaiff eu hesgeuluso, wedi eu hesgeuluso'n aml o fewn y gymuned hefyd, a hynny gan gyfoedion ac weithiau o fewn eu teuluoedd eu hunain. Dylai cynlluniau ar gyfer plant ystyried ffyrdd y gallai plant ddod yn rhan o weithgareddau er mwyn lleihau'r adegau y maent wedi eu hynysu. Mae angen i gynlluniau ar gyfer plant sydd wedi eu hesgeuluso, feithrin gwydnwch er mwyn lleihau peryglon. Gallai meithrin gwydnwch gynnwys:
- Cysylltu plentyn gyda gwasanaethau hamdden neu gymunedol, er enghraifft, canolfannau chwarae
 - Darganfod a oes yna weithgareddau o fewn yr ysgol y gallai'r plentyn gysylltu â nhw
 - Cysylltu'r plentyn o bosibl gydag oedolyn neu ffrind diogel allai fod yn barod i dreulio amser yn gwneud gweithgareddau gyda'r plentyn.
- 7.5** Caiff y cynllun ei adolygu yn rheolaidd. Gellir cynnal adolygiad os oes newid mewn amgylchiadau neu fod digwyddiad yn awgrymu bod angen newid y cynllun mewn rhyw ffordd. Dylai rhieni, a'r plentyn lle bo'n briodol, gael ei annog i fynychu a chymryd rhan yn y broses adolygu.
- 7.6** Lle mae plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o ganlyniad i bryderon ynglŷn ag esgeulustod, y cynllun fydd y Cynllun Amddiffyn Plant, gaiff ei adolygu yn y grŵp craidd a'i ddiweddarau fel bo'n briodol.
- 7.7** Ystyriaethau eraill sy'n bwysig wrth gynllunio ac adolygu gwasanaethau yw:
- Meddwl yn greadigol o safbwynt yr angen, sy'n tynnu ar lwybrau cymorth a chefnogaeth ffurfiol yn ogystal â rhai anffurfiol;
 - Lle bynnag bo modd, ceisiwch fynegi canlyniadau yn nhermau ymddygiad a chynnwys yn y cynllun, sut y bydd y newidiadau a ragwelir yn helpu'r plentyn i ffynnu, datblygu ac ymestyn eu potensial;
 - Meddylwch am anghenion dysgu / arddulliau'r rhieni a sicrhewch eu bod yn glir ynglŷn â'ch pryderon a'ch disgwyliadau ohonynt;

- Ystyriwch a yw'r gwasanaeth a gynigiwch yn rhoi'r gallu i deulu, neu a yw'n cyfrannu at deimladau o ddibyniaeth;
- Meddyliwch yn benodol am sut mae pob plentyn wedi ei gynnwys yn y cynllun – ydy'r plentyn angen cymorth i wella'i hunan barch, meithrin gwydnwch neu ymdopi a rhai agweddau ar eu bywydau;
- Ystyriwch unrhyw anghenion rhianta sydd heb eu bodloni ac a fydd hyn yn tanseilio'u gallu i newid. Efallai bod angen cynnwys gwasanaethau ar gyfer oedolion os mai dyma'r sefyllfa.
- Ceisiwch sicrhau fod y cynlluniau wedi eu cydlynu a bod y gwasanaethau i gyd yn cytuno a nhw, fel bod y teulu'n cael eglurder a chysondeb ynglŷn â'r newidiadau sydd eu hangen.
- Lle mae cydymffurfiaeth ffug, mae'n hanfodol deall ai ysgogiad neu allu yw'r achos am hyn. Mae'r canllaw ymarfer Rhanbarthol, Gweithio gyda Rhieni/Gofalwyr Gelyniaethus ac Anghydweithredol yn cynnwys strategaethau y gallwch eu defnyddio i'ch helpu chi.

7.8 Efallai y bydd angen asesiadau pellach os oes pryderon newydd neu bryderon parhaus am blentyn.

7.9 Pwrpas Goruchwylio

Mae goruchwylio da yn ganolog i reoli a chadw golwg ar waith gyda theuluoedd lle mae pryderon ynglŷn ag esgeuluso plentyn. Dylai'r broses oruchwylio sicrhau:

- Bod y gweithiwr yn glir ynglŷn â'i rolau a'i gyfrifoldebau
- Bod y gweithwyr yn bodloni amcanion eu hasiantaeth
- Darperir gwasanaeth o ansawdd i blant a rhieni
- Er mwyn cefnogi arferion
- I gynorthwyo gyda datblygiad proffesiynol
- I reoli pwysau

Mae angen i weithwyr proffesiynol gyfeirio at bolisi'r asiantaeth sy'n eu cyflogi o ran goruchwyliaeth/canllawiau staff.

7.10 Rhaid sylweddoli pwysigrwydd goruchwylio mewn achosion o esgeulustod. Mae goruchwyliaeth effeithiol yn adnodd pwysig ar gyfer myfyrio, gwybodaeth a chymorth a gall proses yr ymarferydd nodi meysydd lle gellir newid eu harferion i oresgyn optimistiaeth ar gam neu'r syndrom cychwyn eto mewn achosion o esgeulustod.

8. Cynghorion Gorau er mwyn Gweithio gydag Esgeulustod

Bubble quote: *Rwy'n methu cael y teulu i ddeall am beth rwy'n bryderus*

I can't seem to get the family to understand what I am concerned about.

Rhowch gynnig ar y canlynol;

- Byddwch yn glir – defnyddiwch iaith y gellir ei deall, nid dim ond ar lafar ond yn y cynlluniau a'r asesiadau hefyd.
- Rhannwch y gronoleg yr ydych wedi ei chasglu gyda'r teulu.
- Meddyliwch am ffyrdd creadigol o drafod y materion sy'n eich poeni.
- Cynhyrchu cardiau unigol gyda phryder wedi ei nodi ar bob un. Gofyn i'r teulu eu blaenoriaethu. Eu gadael gyda'r teulu er mwyn iddynt feddwl amdanynt.
- Gofynnwch i'r teulu pam maen nhw'n meddwl eich bod yn ymweld, a defnyddiwch eu hymateb i gychwyn son am bryderon.
- Os ydych wedi bod yn ymwneud a'r teulu ers amser hir ac rydych yn teimlo, wrth i chi son am broblemau, nad ydych yn cael effaith mwyach, ceisiwch ymweld gyda chydweithiwr i ddod o hyd i ffordd newydd o sgwrsio am yr un pethau.
- Byddwch yn ofalus o lefel gallu gwybyddol y teulu a newidiwch eich iaith i weddu i hynny (yn arbennig o berthnasol gyda theuluoedd sydd ag anabledau dysgu sylweddol.

Bubble quote: *Mae cynllun yn ei le ond rwy'n dal yn bryderus am ddiogelwch y plentyn*

There is a plan in place but I remain concerned for the child's safety.

Rhowch gynnig ar y canlynol:

- Trafodwch eich pryderon gyda'ch rheolwr llinell, y sawl sydd wedi ei enwi o fewn eich sefydliad chi sydd â chyfrifoldeb dros Amddiffyn Plant neu lle mae'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, Cadeirydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant.
- Gofynnwch am gael dod a'r adolygiad ymlaen.
- Cynhyrchwch gronoleg aml-asiantaeth
- Ystyriwch y pryderon o ran y plentyn a'r rhiant ac effeithiolrwydd y cynllun cyfredol. Ai hwn yw'r cynllun cywir? Ai'r rhain yw'r canlyniadau cywir? Ydyn ni'n glir gyda rhieni beth sy'n ddisgwyliedig ganddynt? Ydym ni wedi gwirio fod rhieni'n deall beth rydym ni'n ceisio ei ddweud?
- Defnyddio offer/adnoddau i drefnu pryderon.
- Ceisio cyngor cyfreithiol ynglŷn â chychwyn Amlinell Cyfraith Gyhoeddus

The plan doesn't seem to be working, the family isn't cooperating - I feel 'stuck'.

Bubble quote: *Nid yw'r cynllun fel pe bai yn gweithio, 'dyw'r teulu yn cydweithredu – rwy'n teimlo'n 'sownd'.*

Rhowch gynnig ar y canlynol

- Adolygu'r cynllun – beth ydych chi wedi ei wneud hyd yma i gynnwys y teulu – beth fu fwyaf llwyddiannus? Beth oedd leiaf llwyddiannus a pham?
- Trafodwch yr achos gyda'ch rheolwr llinell
- Os oes materion ymarferol yn atal cynnydd, ceisiwch ddatrys y rhain. Efallai bod y cartref mor anhrefnus pan fyddwch yn ymweld nes na ellir cwblhau unrhyw asesiad yn yr amgylchedd hwnnw. Os mai dyma'r achos, cynlluniwch yn ofalus sut y gallwch asesu'r teulu o dan yr amgylchiadau hyn neu ceisiwch ddefnyddio lleoliad arall.
- Datrysych rai o'r materion ymarferol allai fod yn tynnu sylw'r teulu (byddwch yn ofalus nad ydynt yn cael eu defnyddio fel esgusodion i'ch taflu chi).
- Meddyliwch am beth mae'r teulu'n hoffi siarad fwyaf - y plant, nhw eu hunain, materion tŷ. Strwythurwch eich ymweliad a rhowch 10 munud iddynt ar gychwyn y sesiwn i ollwng stem ac yna treuliwch weddill yr amser yn edrych ar faterion yr ydych am eu trafod.
- **Cynlluniwch** eich ymweliadau. Meddyliwch yn ofalus faint o'r gloch y byddwch yn ymweld, a beth rydych am ei gyflawni o'r ymweliad a sut fyddwch chi'n gwneud hynny. Defnyddiwch ymweliadau wedi eu cynllunio a rhai heb eu cynllunio.
- Meddyliwch yn ofalus sut rydych chi'n mynd i fonitro a mesur mater esgeulustod. Nid yw'n dderbyniol gweld hyn fel gweithgarwch parhaus y gallwch fwrw golwg arno wrth ymweld â chartref y teulu. Defnyddiwch adnoddau ac offer i adolygu newid, rhoi adborth i'r teulu a sut rydych chi'n gweld y sefyllfa.
- Ystyriwch ddefnyddio ffyrdd creadigol o gynnwys y teulu e.e. fideo, gemau anghenion. (gweler yr arfau asesu o fewn yr atodiad)
- Ystyried defnyddio cytundeb ysgrifenedig gyda'r teulu.
- Defnyddiwch ddull arsylwi er mwyn cael gwybodaeth ac yna adroddwch yn ôl am y materion wrth y teulu a chychwynnwch drafodaeth ynglyn a hyn.
- Ystyriwch drafod eich achos o fewn eich tîm, efallai mewn cyfarfod tîm. Efallai y gall eich cydweithwyr feddwl am ffyrdd newydd o gynnwys y teulu neu gynnig cefnogaeth.
- Ystyriwch gael cyd-weithiwr i weithio ar y cyd gyda chi. Bydd hyn yn rhoi cefnogaeth i chi a galli hefyd roi golwg o'r newydd ar yr achos. Ewch ar ymweliadau ar y cyd.

It's hard to effect change and work with issues of neglect within this family because sometimes parenting is 'good enough' and other times it isn't.

Bubble quote: Mae'n anodd cymell newid a gweithio gyda materion esgeuludod o fewn y teulu yma oherwydd weithiau mae'r rhianta yn 'ddigon da' a weithiau nid ydyw.

Rhowch gynnig ar y canlynol:

- Rhannu cronoleg rhwng asiantaethau – creu cronoleg aml-asiantaeth
- Defnyddiwch hwn i adolygu'r cynllun aml-asiantaeth
- Sefydlwch a oes yna unrhyw batrwm i'r dirywiad neu sbardunau y gellir eu nodi.
- Ystyriwch ganlyniad tymor hir tebygol ar gyfer y plant heb newid a difrifoldeb hyn.
- Byddwch yn glir am y canlyniadau a geisir i'r plant.
- Byddwch yn ofalus rhag defnyddio'r un meini prawf gyda phlant anabl.
- Ystyriwch beth yw'r effaith ar y plant yn y teulu hwn o brofi esgeulustod dro ar ôl tro, sydd wedi parhau dros gyfnod o amser er bod hynny'n gyfnodol.

The family had shown that they do know and understand what good parenting... but they don't do it consistently.

Bubble quote: Roedd y teulu wedi dangos eu bod yn gwybod a deall beth yw rhianta da... ond dydyn nhw ddim yn gallu gwneud hynny'n gyson.

Rhowch gynnig ar y canlynol

- Mae'n gyffredin i rieni sydd wedi derbyn cymorth a gwasanaethau megis rhaglenni sgiliau rhianta, fod a gwybodaeth o beth yw rhianta da. Yn aml, gall rhieni siarad am yr hyn ddylen nhw fod yn ei wneud gyda'u plant, ac yn aml, maen nhw'n dangos y gallu i ddarparu gofal da, ond nid ydynt yn llwyddo i wneud hyn yn gyson bob amser.
- Ystyriwch gynnwys unigolion all weithredu fel modelau rôl i rieni yn y cartref os yn bosibl. Efallai bod adnoddau o fewn y teulu estynedig ar gyfer hyn, neu wasanaethau sy'n cynnig y cymorth hwn. Nod yr ymarfer hwn fyddai treulio cyfnodau estynedig o amser yn y cartref yn cynorthwyo ac yn arwain rhianta. Fe allai olygu helpu mam ifanc i roi bath diogel i'w babi. Neu helpu teulu i ddeall yr angen am hylendid da yn y gegin.
- Cadwch anghenion y plant o fewn golwg. Siaradwch gyda'r plant i weld beth yw eu profiadau.
- Pan fyddwch chi'n gwybod y gall rhieni ofalu'n ddigonol ar adegau, mae'n anodd parhau'n wrthrychol a gallai fod tuedd i wyro tuag at optimistiaeth. Cofnodwch yn gywir pa bryd mae'r diffyg mewn rhianta'n digwydd, a chasglwch gronoleg o ddamweiniau a materion ynglyn a goruchwyliaeth wael.
- Cadwch mewn cof fod tuedd i ddefnyddio meini prawf gwahanol gydag esgeuluso plant anabl. Dylai'r meini prawf fod yr un fath. Mae plant anabl 3.4 gwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin na phlant sydd heb anabledd.
- Ceisiwch ddeall ai problem ysgogiad neu broblem gallu yw hyn.

Fframwaith Aseu

Anghenion Datblygu'r Plentyn

Iechyd:

Bod yn lân
Derbyn gofal meddygol
Derbyn gofal deintyddol
Bwydo'n addas i oedran a
cham datblygu
Cynhesrwydd
Cysgod

Addysg:

Chwarae
Ysgogiad
Cyfeillgarwch
Profiad o lwyddiant a chyflawniad
Mynediad at lyfrau a theganau
Cymorth gydag anghenion addysgol
arbennig

Emosiynol (ymddygiad)

Cariad
Diogelwch
Ffiniau
Ymlyniad wrth unigolyn allweddol
Teimlo eu bod yn cael eu
gwerthfawrogi

Hunaniaeth:

Teimlo eu bod yn cael eu
gwerthfawrogi
Teimlo eu bod yn perthyn
Dealltwriaeth o dreftadaeth
ddiwylliannol
Mynediad at ddelwedd gadarnhaol
ohonynt eu hunain mewn cymdeithas

Sgiliau Hunan Ofal:

Ymolchi a gwisgo oni bai bod
anabledd yn eu hatal.
Annibyniaeth yn briodol i'w hoedran
a'u cam bywyd
Bwydo ei hun oni bai bod anabledd
yn atal hynny.

Gallu rhianta

Gofal Sylfaenol:

Bodloni anghenion corfforol y
plentyn
Gofal meddygol a deintyddol
Dilladu'n addas
Hylendid personol

Sicrhau diogelwch:

Gwarchod rhag niwed neu
beryl
Amddiffyn rhag oedolion
anniogel
Goruchwyliaeth
Ffiniau
Dewis gwarchodwyr plant
cyfrifol
Rhoi dealltwriaeth i blant o
berylglon posib

Cynhesrwydd emosiynol:

Bodloni anghenion emosiynol y
plentyn
Cynnig ymdeimlad cadarnhaol
o dreftadaeth hiliol a
diwylliannol y plentyn
Cyswllt corfforol priodol
Ffactorau teuluol ac
amgylchedd
Canmoliaeth ac anogaeth

Ysgogiad:

Chwarae/darllen/siarad
Profi llwyddiant
Presenoldeb yn yr ysgol

Canllawiau/ffiniau:

Galluogi'r plentyn i wneud ei
ymddygiad a'i emosiynau ei
hun yn anghenraid
Modelu ymddygiad priodol

Sefydlogrwydd:

Datblygu a chynnal ymlyniad
diogel ble bo modd
Cysondeb cynhesrwydd
emosiynol
Cyswllt ag aelodau'r teulu a
phobl eraill arwyddocaol.

Teulu a ffactorau amgylcheddol

Hanes a gweithrediad teuluol

Cryfderau ac anawsterau
Profiad plentyndod o rieni
Gweithrediad teuluol
Perthynas rhwng brodyr a
chwiorydd
Rhieni sy'n absennol

Teulu Ehangach:

Pwy yw'r bobl hyn?
Pa rôl maen nhw'n chwarae?

Llety:

A yw'n addas/a oes yno
amwynderau sylfaenol

Gwaith:

Pwy sy'n gweithio
Sut mae gwaith neu
ddiffyg gwaith yn effeithio ar
blant?

Incwm:

Ydy anawsterau ariannol yn
effeithio ar y plentyn

Integreiddio cymdeithasol:

Integreiddio neu ynysu?

Adnoddau Cymunedol:

Ydyn nhw i'w cael yn yr ardal?
Ydy'r teulu'n gallu cael
mynediad atynt?

Datblygiad y Plentyn	Gallu Rhianta	Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol
<ul style="list-style-type: none"> • O dan eu pwysau/dros eu pwysau • Ymddangos yn llwglyd/sychedig • Oer wrth gyffwrdd ynddynt • Oedi mewn datblygiad • Oedi mewn llafaredd • Diffyg egni • Tuedd I fod yn sal a chael heintiau • Achosion cyson o gastro-enteritis • Anhwylderau'r croen • Gwallt tenau sych • Alopecia • Presenoldeb isel yn yr ysgol • Ymlyniad gwael • Dillad anaddas ar gyfer y tywydd • Budr/diffyg hylendid • Glanweithdra deintyddol gwael • Unman i'r plentyn gysgu • Ynysig/ encilgar/ problemau ymddygiad/ trist neu ddiffyg ymateb • Hunan niweidio • Dim dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol/ hiliaeth gan aelodau'r teulu • Plant ag anghenion iechyd neu ddatblygiad ddim yn cael mynediad at wasanaethau. • Dwyn bwyd/ arian 	<ul style="list-style-type: none"> • Anabledd dysgu rhieni • Rhieni'n camdrin sylweddau • Iechyd meddwl rhieni • Hanes rhianta gwael ymysg y rheini • Cefnogaeth brin gan deulu estynedig • Profedigaeth neu golled • Ymlyniad gwael • Disgwyliadau afreal ar gyfer y plentyn o ran oed a champau datblygu • Diffyg cynhesrwydd/ llawer o feirniadaeth • Diffyg ysgogi'r plentyn • Defnyddio gwarchodwyr plant anaeddfed neu anaddas. Anallu i warchod plant rhag oedolion anniogel. • Peidio gosod ffiniau i'r plentyn • Diffyg goruchwyliaeth • Dealltwriaeth gyfyngedig o beryglon posibl i blant e.e. llosgiadau, diogelwch y ffordd, peryglon dieithriaid • Diffyg gofal emosiynol e.e. cynhesrwydd, canmoliaeth, anogaeth, diogelwch • Peidio cael mynediad at ofal iechyd hanfodol • Plant ifanc ar eu pen eu hunain neu heb oruchwyliaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Tlodi • Diweithdra • Unigrwydd • Addysg wael • Llety gwael • Gorlenwi cartref • Symud tŷ'n aml • Anifeiliaid anwes / anifeiliaid • Hylendid gwael • Dim diddordebau hamdden y tu allan i'r cartref • Hiliaeth • Iselder • Ddim yn gymwys ar gyfer budd-daliadau oherwydd statws gwleidyddol / ymfudo

Egwyddorion Allweddol i'w hystyried wrth wneud Asesiad Craidd

- **Deall amgylchiadau'r teulu:** Ni ellir cychwyn Asesiad Craidd heb ddealltwriaeth fanwl o gefndir y teulu ac ymwneud blaenorol a'r gwasanaethau. Am y rheswm hwn, mae cwblhau **Genogram, Hanes Cymdeithasol a Chronoleg** yn fan cychwyn pwysig iawn.
- **Mae achosion ynysig o esgeulustod yn brin:** Mae'n debygol y bydd nifer; efallai y byddant yn fan ddigwyddiadau o esgeulustod, a dros amser bydd y pryder yn cynyddu. Mae'n bwysig nodi a dadansoddi unrhyw batrwm o ymddygiad esgeulus o fewn cyd-destun y teulu. Am y rheswm hwn, ni ellir gor-bwysleisio defnyddioldeb creu cronolegau.
- **Mae'n debyg y bydd gan rieni nifer o anghenion eu hunain:** Gallai'r rhain gynnwys camddefnyddio sylweddau, anabledd dysgu, iselder ar ol genedigaeth, problemau iechyd meddwl, trais yn y cartref, a phob un o'r rhain yn golygu fod angen lefelau uchel o gymorth. Ond, mae'n bwysig cadw golwg glir ar anghenion y plentyn yn ogystal â chynnig cymorth a gwasanaethau i rieni.
- **Osgoi crwydro a diffyg ffocws** Mae'n bwysig cynllunio'r asesiad a chael amserlenni clir ar gyfer cwblhau. Mae gweithio i amserlen yn hanfodol. Mae'r un mor bwysig peidio ag oedi wrth ddarparu gwasanaethau yn dilyn canlyniad asesiad. Gall gwasanaethau ac ymyraethau ffurfio sail i'r broses asesu.
- **Gochel rhag bod yn "ddall" i esgeulustod:** Gall gweithwyr sy'n gweithio mewn ardaloedd lle mae rhianta esgeulus yn gyffredin, golli sensitifrwydd, a thueddu i leihau neu 'normaleiddio' sefyllfaoedd a fyddai'n annerbyniol mewn cyd-destunau eraill. Mae goruchwyliaeth gadarn, sy'n golygu trafod a gwerthuso'n adfyfyril, yn hanfodol i atal gweithwyr rhag dadsensiteiddio. Mae'n werthfawr hefyd i weithwyr o asiantaethau gwahanol gyfarfod, e.e. mewn cyfarfodydd tîm, i drafod materion, rhannu pryderon a chadw golwg ar faterion esgeulustod.
- **Defnyddio offer asesu fel ffordd o ffocysu ac adolygu:** Gellir defnyddio offer asesu fel ffordd o roi tystiolaeth am bryderon a bydd yn rhoi eglurder a sail ddamcaniaethol i unrhyw weithrediadau cyfreithiol, pe bai angen hynny. Gall arfau asesu amlygu ble mae angen mwy o waith mewn dyfnder neu gydweithio gyda gwasanaethau arbenigol. Dylid rhoi ystyriaeth i ddefnyddio Holiaduron a Graddfeydd y Pecyn Teulu, rhan o'r Fframwaith Asesu.
- **Ystyried yn gynnar y tebygrwydd y gall y rhieni newid:** Dylai ymarferwyr sy'n ymdrin ag esgeuluso plant ochel rhag bod yn rhy optimistig ynglyn a'r posibilrwydd y bydd rhieni'n newid yn barhaol a chynnig rhianta fydd yn gyson dda. Weithiau, nid yw'n bosibl newid ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau ar sail canlyniadau amserol i'r plentyn. Gelwir y fagl hon yn **rheol optimistiaeth**, all ddod i'r amlwg gydag amharodrwydd ymarferwyr i ystyried arwyddion posibl o gamdriniaeth neu leihau arwyddocâd yr hyn mae plant yn ei ddweud. (2009, Dysgu Gwersi o adolygiadau Achosion Difrifol, Blwyddyn 2, Ofsted).
- Dylai gweithwyr fod yn ofalus hefyd rhag gweithredu'r **syndrom cychwyn eto** ((2008, Brandon et al, DCFS) gyda theuluoedd sy'n ceisio cyflawni asesiad mwy positif mewn cyfnod o newid gweithwyr. Gall hyn greu 'rheol optimistiaeth' ar gam, a gall hynny achosi oedi a thanseilio effeithiolrwydd asesiad neu gynllun.
- **Asesu ffynonellau gwydnwch yn ogystal â risg:** Tra bod y gwersi a'r ymchwil a ddaw o adolygiadau achosion difrifol yn cynnig sylfaen gadarn i osgoi bod yn rhy optimistig, nid yw hyn yn golygu y dylai asesiadau osgoi pwysigrwydd ffynonellau gwydnwch a cyfleoedd i hybu'r meysydd ym mywyd y plentyn sy'n lleihau'r risg. Disgrifiwyd gwydnwch fel: 'Rhinweddau sy'n gwarchod plentyn agored i niwed rhag effeithiau gwaethaf trallod, beth bynnag fo'i ffurf, ac a allai arwain y plentyn i ymdopi, goroesi a hyd yn oed ffynnu,' (Gilligan, 1997). Gellir adnabod gwydnwch fel bodolaeth perthynas gydag oedolyn diogel y tu allan i gartref y teulu, talent, neu ddiddordeb a hobïau. Yn yr un modd, ni ddylid bychanu anghenion plentyn gwydn.

- **Arsylwi'r ffordd y mae'r rhiant a'r plentyn yn rhyngweithio:** Gall arsylwadau fod yn sail i asesiadau o ymlyniad a chynnig golwg ar y berthynas rhwng rhieni a phlentyn a'r plentyn a brodyr a chwiorydd eraill. Mae disgwyliadau afreal neu gamddehongliadau o ymddygiad plentyn yn aml yn nodwedd o rianta esgeulus, er enghraifft, plentyn sy'n crio'n aml yn cael ei ddisgrifio fel 'drwg' - fel pe bai crio'r plentyn yn weithred fwriadol a fwriedir i darfu ar y rhiant.
- **Parhau i fod yn ymarferol a pheidio â cholli golwg ar anghenion sylfaenol y plentyn:** Drwy gydol y broses asesu, parhau i ystyried y pethau sylfaenol - ydy'r plentyn yn gyfforddus, oes digon o fwyd yn y tŷ, oes yno ddigon o glytiau, ydy'r tŷ'n ddigon cynnes, oes yna ddŵr poeth i ymolchi? Byddwch yn barod i holi cwestiynau a bod yn chwilfrydig! Peidiwch â chymryd pethau am eu gwerth!
- **Dylid asesu pob plentyn o fewn y teulu fel unigolyn unigryw:** Ni chaiff pob plentyn ei drin yr un fath na chael yr un rôl neu arwyddocâd o fewn teulu. Yn benodol, efallai y bydd yna **blentyn sy'n cael ei weld yn wahanol**. Gallai'r rhain fod yn blant y mae'r rhiant (rhieni) yn eu cysylltu gyda genedigaeth anodd, marwolaeth neu golli partner, neu newid yn amgylchiadau eu bywyd er enghraifft. Gallai'r teimladau negyddol gael eu taflu ar y plentyn. Gallai plentyn na chafodd ei gynllunio neu lys blentyn arwain at ddieter mewn gyrfa, ac / neu ystumio'r bondio. Gallai'r plant yma gael eu trin yn wahanol o fewn y teulu.
- **Byddwch yn hyderus yn eich asesiad** a sicrhewch ei fod yn cael ei wneud yn unol â'r **Fframwaith Asesu**. Gall asesiadau arbenigol fod yn ddefnyddiol ond dim ond mewn amgylchiadau penodol, y cytunwyd arnynt y dylid eu comisiynu.

Asesiadau Craidd mewn Amgylchiadau Cymhleth

Gallai'r broses asesu dynnu sylw at anghenion niferus a chymhleth o fewn teulu unigol, allai fod angen dull mwy arbenigol, aml-asiantaeth.

Gallai enghreifftiau o sefyllfaoedd o'r fath gynnwys:

- **Plant a anwyd i rieni sydd ag anghenion dysgu arbennig, neu salwch meddwl cronig**
Gall rhieni sydd ag anabledd neu salwch tymor hir wynebu sialensiau penodol mewn bywyd, a rhai ohonynt yn cael effaith ar eu gallu i rianta. Dylid asesu rhieni o'r fath fel rhieni drwy eu hawl eu hunain, yn ogystal ag asesiad o anghenion eu plentyn lle bo'n briodol. Dylid cael cydweithio rhwng Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Mae'n rhaid cael cyd weithio rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a phlant dan yr amgylchiadau yma.
- **Plant a enir i famau sy'n cymryd cyffuriau yn ystod eu beichiogrwydd**
Gallai plant sy'n dioddef symptomau diddyfnu ymddwyn yn drallodus neu'n aflonydd a bydd rhieni'n cael hynny'n anodd ei reoli. Gall y plentyn fod yn anodd ei gysuro hefyd. Gall rhieni sydd heb lawer o hyder yn eu sgiliau rianta ac sy'n brin o ysgogiad oherwydd eu bod yn defnyddio cyffuriau, ei gweld yn gryn her bodloni anghenion eu plant. Efallai y bydd angen Asesiad Craidd cyn genedigaeth yn yr achosion hyn yn sail i'r cynllunio. Mae camddefnyddio sylweddau yn niweidio plant a phobl ifanc o bob oed o'u cenhedlu hyd nes eu bod yn oedolion.
- **Babanod pwysau geni isel a babanod cynamserol**
Gall ymdopi a phlentyn mewn uned gofal arbennig fod yn straen mawr a gall amgylchedd corfforol uned ddibyniaeth uchel gael effaith negyddol ar allu'r gofalwr i fondio gyda'r babi. Mae'r plant yma'n fwy tebygol o gael anawsterau bwydo, salwch cronig, ac anableddau niwrolegol, ymddygiad a gwybyddol, na phlant eraill. Mae cysylltiad rhwng pwysau geni isel ac anfantais economaidd cymdeithasol, amodau tai gwael ac iselder.
- **Plant ag anableddau**
Gall plant sy'n dioddef anableddau fod yn destun camdriniaeth ac esgeulustod yr un mor hawdd, ond yn aml ni chant eu dangos yn y ffigurau amddiffyn plant. Fodd bynnag, mae ymchwil gan y Gweithgor Cenedlaethol ar Amddiffyn Plant ac Anabledd (2003) yn datgelu y gallant fod yn fwy agored i niwed na phlant heb

anabledd. Dangosodd astudiaeth hân Sullivan a Knutson (2000) yn America bod plant ag anableddau 3.4 gwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso na phlant heb anabledd.

Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywiol ac yn gymhleth. Fodd bynnag, efallai na fydd plant ag anableddau'n gallu cyfathrebu eu hanghenion neu eu pryderon, neu gael mynediad at gymorth a chefnogaeth y tu allan i'w teuluoedd. Mae'r pwysau o ofalu am blentyn anabl yn barhaus ac efallai na fydd rhieni'n derbyn yr holl wasanaethau a chymorth maen nhw eu hangen i fodlon anghenion eu plentyn. O ganlyniad, efallai y bydd y plentyn yn dod yn destun rhwystredigaeth y gofalwr.

Gall plant anabl fod yn cael gofal mewn teuluoedd lle mae gan y rhieni broblemau iechyd meddwl, cam-drin yn y cartref, a chamddefnyddio sylweddau. Mae'n bosibl y bydd y pwysau yma'n cael eu taflu ar y plentyn gan arwain at greu bwch dihangol ac / neu gamdriniaeth ac esgeuluso'r plentyn.

Efallai y bydd hyn yn cael ei waethygu pan fydd y rhwydwaith proffesiynol yn canolbwyntio'u sylw ar anabledd y plentyn yn hytrach nag anawsterau'r rhiant. Mewn rhai achosion, efallai y bydd anabledd y plentyn yn ganlyniad i gamdriniaeth, ac efallai eu bod yn agored i niwed a rhagor o esgeulustod oherwydd eu hanabledd.

- **Siarad gyda theuluoedd ynglyn ag esgeulustod**

Yn aml, mae'n anodd i weithwyr proffesiynol drafod problemau gyda theuluoedd ynglyn a chamdriniaeth. Mae siarad am esgeulustod yn golygu fod rhaid i ymarferwyr gwestiynu sail eu gwerthoedd eu hunain a chyfathrebu gyda rhieni ynglyn a materion, sy'n bersonol ac yn anodd eu trafod, er enghraifft, arogleuon yn y tŷ, baw a hen fwyd ar y carped, efallai bod hylendid personol y rhiant yn wael a'u bod nhw a'r plentyn yn fudr ac yn drewi.

Fel rhan o'r broses asesu, mae'n rhaid i ymarferwyr sicrhau bod y teulu'n deall eu pryderon. Mae angen bod yn glir ond yn sensitif, a pheidio â defnyddio jargon, bod yn ymwybodol o ddiogelwch personol rhag ofn i riant fod yn flin, a gwirio dealltwriaeth y rhiant o'r hyn a ddywedwyd wrthynt, yn enwedig lle mae prawf y gallai'r rhiant fod ag anabledd dysgu.

- **Pwysigrwydd Dadansoddi**

Mae cyflawni asesiad yn broses ddeuol o gasglu a threfnu gwybodaeth ac yna'i ddadansoddi. Mae dadansoddi'n golygu atodi ystyr ac arwyddocâd i'r hyn a arsylwyd neu a fynegwyd, a thrwy hynny, benderfynu beth ddylai ddigwydd nesaf.

Oes yna ddigon o gyfiawnhad dros barhau a gwasanaethau, naill ai'n wirfoddol neu drwy ymwneud statudol?

Yn seiliedig ar y ddealltwriaeth o'r wybodaeth o'r asesiad, beth ddylai fod yn y cynllun er budd gorau'r plentyn / plant?

Beth mae'r wybodaeth hon yn ei olygu er mwyn diogelwch a lles y plentyn hwn?

Er mai dadansoddiad o waith cymdeithasol ydyw yn y pen draw, fel yn achos casglu gwybodaeth, dylid ceisio safbwynt aml-asiantaeth o ran dehongli a deall yr wybodaeth ac o ran beth yw ystyr hynny wedyn i'r plant unigol o fewn y cartref. Mae dadansoddi'n rhoi ystyriaeth i'r dystiolaeth a gasglwyd ac yn cymhwyso ffurfiau damcaniaethol i helpu i ddeall y materion hyn, a'u gwerthuso yn ol hynny.

Atodiad 2

Diwrnod ym Mywvd Plentyn

Beth yw trefn ddyddiol y plentyn?

Gallwch wneud y gwaith hwn gyda'r plentyn mewn amrywiaeth o ffyrdd e.e. cofnod mewn dyddiadur, defnyddio wyneb cloc, llythyr at rywun, llinell amser ayyb. Y pwrpas yw cael dealltwriaeth o brofiad byw'r plentyn - sut beth yw bod yn esgidiau'r plentyn yn y cartref hwn gyda'r rhieni/gofalwyr?

Deffro

Ydyn nhw'n defnyddio cloc i ddeffro? Oes rhywun arall yn eu codi?

Faint o'r gloch fydd hyn? Oes rhaid iddyn nhw ddeffro rhywun arall? Oes yna rywun arall yn codi gyda nhw? Ydy'r un peth yn digwydd bob dydd?

Brecwast

Ydyn nhw'n cael brecwast? Pa fath o fwyd maen nhw'n gael? Oes yna ddewis? Pwy sy'n gwneud brecwast?

Gwisgo

Ydyn nhw'n gwisgo amdanynt eu hunain? Ydyn nhw'n helpu unrhyw un arall i wisgo? Ydyn nhw'n ymolchi a glanhau eu dannedd cyn gwisgo amdanynt? Pwy sy'n gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gwneud hyn? Oes yna ddŵr poeth a dillad glân?

Mynd i'r Ysgol

Oes rhywun yn mynd a nhw? Oes rhaid iddyn nhw fynd a rhywun arall? Ydyn nhw'n croesi ffyrdd prysur? Pwy sy'n eu helpu i wneud hyn? Ydyn nhw'n cyrraedd yr ysgol mewn pryd?

Yn yr Ysgol

Beth maen nhw'n ei hoffi am yr ysgol? Beth nad ydyn nhw'n ei hoffi am yr ysgol? Oes ganddyn nhw ffrindiau? Beth maen nhw'n wneud gyda'u ffrindiau? Ydyn nhw'n cael eu bwlio? Beth maen nhw'n wneud amser egwyl? Beth maen nhw'n fwyta amser cinio? Oes ganddyn nhw hoff athrawon neu bynciau?

Gwyliau ysgol/ penwythnosau

Ydyn nhw'n gofalu am unrhyw un? Oes ganddyn nhw dasgau/waith i'w wneud? Os oes, beth ydyn nhw ac i bwy? Sut arall maen nhw'n treulio'u hamser? Ydyn nhw'n gweld ffrindiau? Pwy sy'n gofalu amdanynt nhw pan nad ydynt yn yr ysgol? Pwy sy'n goruchwyllo amser bwyd?

Ar ol ysgol

Oes yna rywun yn eu nôl o'r ysgol? Ydy'r person hwn ar amser? Ydyn nhw'n rhan o unrhyw glybiau ar ol ysgol? Sut maen nhw'n mynd adref o'r ysgol? Ydyn nhw'n gofalu am unrhyw un arall ar ol ysgol? Ydyn nhw'n cyfarfod gyda ffrindiau? Ydyn nhw'n cael rhywbeth i'w fwyta pan ddônt adref? Beth maen nhw'n gael? Pwy sy'n ei baratoi iddyn nhw? Ydyn nhw'n paratoi bwyd i unrhyw un arall?

Gyda'r nos

Ydyn nhw'n cael pryd bwyd gyda'r nos? Faint o'r gloch fydd hyn? Pwy sy'n paratoi'r pryd? Beth yw eu hoff fwyd? Ydyn nhw'n cael hwn yn aml? Ydyn nhw'n bwyta gyda'u teulu/gofalwyr? Os nad ydynt, ble maennhw'n bwyta? Wrth bwy maennhw'n dweud os ydyn nhw'n llwglyd a beth sy'n digwydd am hyn? Ydyn nhw'n gwyllo'r teledu? Os ydyn nhw, beth maen nhw'n wyllo? Ydyn nhw'n defnyddio'r rhyngwrwd / safleoedd rhwydweithio cymdeithasol? Ydy hyn wedi ei oruchwyllo? Pam maen nhw'n cyfathrebu ar-lein? Am beth maen nhw'n son? Ydyn nhw'n mynd allan? Os ydyn nhw, i ble, a chyda pwy a beth maen nhw'n wneud? Ydyn nhw'n hoffi teganau a gemau? Oes ganddyn nhw rai? Beth mae eu rhieni/gofalwyr yn ei wneud gyda'r nos? Beth maen nhw'n feddwl am yr hyn maen nhw'n wneud? Ydyn nhw'n treulio amser gyda rhieni/gofalwyr gyda'r nos? Os ydyn nhw, beth maen nhw'n wneud? Ydyn nhw'n gofalu am unrhyw un arall gyda'r nos?

Amser gwely

Oes yna amser penodol i fynd i'r gwely? Pwy sy'n penderfynu ei bod yn amser gwely? Ble maen nhw'n cysgu? ydych chi'n hoffi ble rydych chi'n cysgu? Ydy o'n lân ac yn gynnes? Ydyn nhw'n newid i fynd i'r gwely? Ydyn nhw'n ymolchi ac yn golchi eu dannedd amser gwely? Ydyn nhw'n cysgu heb gael eu tarfu? Pwy arall sydd yn y tŷ yn y nos? Ydyn nhw'n gyfrifol am unrhyw un arall amser gwely?

Atodiad 3

SIART ARSYLWI AR RYNGWEITHIAD

Manylion rhieni, enw a dyddiad geni

Manylion plentyn, enw a dyddiad geni

Dyddiad a Lleoliad:

	Plentyn	Rhiant	Adwaith
Chwarae			
Siarad			
Cyffwrdd			
Chwarae			
Rhoi sicrwydd			
Anwyldeb			
Ffiniau			
Canllawiau			
Canmoliaeth			
Beirniadaeth / Sylwadau negyddol			

Atodiad 4

GWERTHUSIAD

Ar sail yr wybodaeth a ystyriwyd

1. Asesu pob maes risg a nodwyd

Ewch i'r afael a phob mater ar wahân yn hytrach na chanolbwyntio ar yr unigolion sy'n gysylltiedig.

2. Trefnu'r risgiau o ran eu harwyddocâd i'r plentyn

Cadwch mewn cof y gall canlyniadau esgeulustod a chamdriniaeth emosiynol fod a) yn dymor hir ac/neu ar y pryd. b) Difrifol ac/neu lai difrifol. c) Yn parhau ac/neu am dymor byr. Cadwch mewn cof hefyd, gydbwysedd amlder ymddygiad peryglus a difrifoldeb y canlyniad.

3. Ystyried y ffordd y mae'r materion yn rhyngweithio

Cadwch mewn cof fod bron pob ymddygiad yn ganlyniad rhyngweithio rhwng unigolyn a nodweddion cymeriad.

4. Nodi'r hyn sy'n rhaid newid (neu ei wneud yn wahanol)

Gwnewch hyn i bob un o'r risgiau a nodir. Beth ddylai ddigwydd os yw'r rhain i gael eu lleihau i lefel lle nad oes risg o niwed sylweddol mwyach. (Dyma'r 'newidiadau angenrheidiol'). Nodwch pa ganlyniadau penodol sy'n angenrheidiol i'r plentyn.

5. Sefydlu a yw'r rhiant wedi ceisio, neu a ofynnwyd iddynt wneud newidiadau tebyg o'r blaen

I ba raddau oedden nhw'n llwyddiannus?

Pam fydden nhw'n llwyddo nawr os na wnaethon nhw cynt?

Cadwch mewn cof oni bai fod rhywbeth hanfodol yn newid, mai'r dangosydd gorau o ymddygiad y dyfodol yw ymddygiad y gorffennol.

6. Gwertho cryfderau a gwendidau

Gwnewch hyn o ran y teulu cyfan ac unigolion o'i fewn. Cadwch hyn mewn cof, nid dim ond rhestru pethau cadarnhaol a negyddol, ond yn hytrach, eu pwysu a'u mesur a'u cydbwysu.

7. Adnabod rhagolygon am newid llwyddiannus

O'r newidiadau angenrheidiol (a nodwyd yn 4 uchod) o fewn y rhai y gellir eu cyflawni'n gredadwy o fewn yr amserlenni sy'n ystyrion i'r plentyn? A pha rai na ellir eu cyflawni fwy na thebyg, a pham?

8. Adnabod pa mor bosibl fydd cyflawni newidiadau

Gan bwy? Erbyn pa bryd? Gyda pha gymorth a chefnogaeth? Gan ddefnyddio pa adnoddau? A sut beth fydd y llwyddiant?

Cadwch mewn cof fod 'llwyddiant' yn y cyd-destun hwn yn golygu 'cyflawniad cynaliadwy'.

9. Adnabod sut y gwneir y newidiadau angenrheidiol os na neu os nad yw rhieni am eu cyflawni?

Pwy fydd yn gwneud beth? Erbyn pa bryd? Gyda phwy? Gan ddefnyddio pa brosesau? Gan ddefnyddio pa adnoddau?

10. Adnabod effaith gwneud newidiadau angenrheidiol na all rhieni eu cyflawni, ar y newidiadau y gallant eu cyflawni?

Cadwch mewn cof y gall peth newid angenrheidiol fod yn bwysicach.

11. Dyfeisio cynlluniau i reoli risg

Mae gwaith Amddiffyn Plant, yn ddieithriad, yn cynnwys gwneud asesiadau cymhleth, cydbwysu risgiau, a phenderfynu ar y llwybr mwyaf diogel. Mae gweithwyr proffesiynol yn gorfod cymryd risgiau o ran plant, teuluoedd, nhw eu hunain, cydweithwyr ac asiantau. Er mwyn i risgiau o'r fath gael eu hamddiffyn yn broffesiynol, mae'n rhaid i strategaethau rheoli risg gael y nodweddion canlynol:

- Meddu ar sail gadarn ar asesiad risg sydd wedi ei strwythuro a'i resymu'n glir
- Cael ei gofnodi – fel y bydd y casgliadau a wneir a'r syniadau sy'n sail iddynt yn glir i bawb eu gweld – gan gynnwys rhieni
- Nodi'n glir beth ddylai newid (newid angenrheidiol) a beth allai fod yn fuddiol fel arall (newid dymunol). Mae'r broses o gyflawni newid yn aml yn gofyn am gydbwysu a) colled posibl yn erbyn yr enillion a, b) cefnogaeth yn erbyn ymyrraeth. Mae'n rhaid bod posibilrwydd realistig o gyflawni'r newid angenrheidiol o fewn amserlen a chyd-destun sy'n ystyrion o ran anghenion tymor hir ac anghenion tymor byr y plentyn.
- Nodwch yn glir pwy ddylai newid. Dylid gwneud hyn o ran pwy sy'n gyfrifol am wneud y newidiadau, a phwy sy'n mynd i'w cynorthwyo i gyflawni'r newid.

- Bod yn effeithiol wrth liniaru risgiau
- Egluro cyfrifoldeb dros wneud newidiadau angenrheidiol – gan gynnwys cyfrifoldeb y rhieni ac aelodau'r teulu
- Adnabod a gweithredu cynlluniau wrth gefn er mwyn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol pe bai diffyg cydymffurfiaeth neu ddiffyg llwyddiant (am ba bynnag resymau)
- Gosod amserlenni sy'n gyfath ag anghenion datblygu'r plentyn

Penderfynu ar ddamcaniaeth

Mae'n bwysig bod yn realistig ynglyn a'r posibilrwydd o gyrraedd canlyniad llwyddiannus. Dylid ystyried y canlynol.

Gwael

- Rhieni'n gwadu rhesymeg yn sylweddol
- Camdriniaeth sadistaidd neu fisâr
- Gwrthod help neu driniaeth - neu riant yn methu cymryd rhan y tu hwnt i fynegi'r bwriad
- Gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig yn cael eu gweld fel 'y broblem' neu achos y problemau
- Y plentyn yn destun camdriniaeth seicolegol
- Rhieni ddim yn dangos empathi tuag at y plentyn ac/neu ymlyniad yn wael
- Diffyg cadw cyswllt
- Rheini'n treulio dedfryd a phroblemau cyffuriau ac/neu alcohol drwg
- Nid yw'r plentyn am ddychwelyd i ofal y rheini
- Newid yn annhebygol o gael ei gyflawni o fewn amserlen sy'n rhesymol i'r plentyn

Amheus

- Rhieni'n amwys ynglyn a derbyn eu cyfrifoldeb
- Rhieni'n amwys ynglyn a derbyn cymorth proffesiynol - e.e. drwy gydymffurfiaeth wael neu anghyson gyda Chynllun Amddiffyn
- Rhieni'n beio'r naill a'r llall ac yn methu datrys pethau na symud y tu hwnt i hyn
- Ymlyniad yn ansicr ac/neu'n bryderus
- Rhieni'n gwneud i'r plentyn gymryd, neu ganiatáu, cyfrifoldeb dros ddarparu meithrin sylweddol ayyb at rieni, neu gynnwys plentyn yn amhriodol wrth ymdrin â materion i oedolion

Gobeithiol

- Rhieni'n derbyn yr angen i newid a'r cyfrifoldeb dros ei greu a'i gynnal
- Rhieni'n gallu derbyn help ac yn ei ddangos a gwneud defnydd cyson ohono
- Rhieni ddim yn beio'r plentyn, ac yn rhoi anghenion y plentyn yn gyntaf
- Disgwyliadau'r rhieni o'r plentyn yn realistig

Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant (LICC, 2006)

ACDM 2003

Hidden Harm <http://drugs.homeoffice.gov.uk>

B Daniel et al, 2009

Adolygu llenyddiaeth sylwi ar blentyn sy'n cael ei esgeuluso a'i helpu

www.publications.dcsf.gov.uk

Brandon et al (2008)

Dadansoddiad bob yn eilflwydd o adolygiadau achosion difrifol, 2003-2005, DCSF, 2008

Cleaver H, Unell I, Aldgate J (1999)

Children's Needs – Parenting Capacity: The impact of Parental mental illness, problem alcohol and drug use and domestic violence on children's development

David Howe 1995

Child Abuse and Neglect, Palgrave Macaulay

Danielle Turney (2000),

Child and Family Social Work 5, tudalennau 47 – 56 'The feminising of neglect'.

Donald Forrester

in Child Abuse Review Vol. 9 23 5-246 (2000)

'Parental Substance Misuse and Child Protection in a British Sample'.

Howarth J (ed) (2000)

"The Child's World: Assessing Children in Need, The Reader" NSPCC Llundain

Howarth J 2007

Child Neglect, Palgrave Macmillan

Hildyard,C and Wolfe,D. (2002)

Child Neglect: developmental issues and outcomes. Child Abuse and Neglect, 26, 679-695

Karen Tanner, Danielle Turney

Child Abuse Review Vol. 9 337 – 348 (2000)

The Role of Observation in the Assessment of Child Neglect

Olive Stevenson (2007)

Child and Family Social Work , 1, tudalennau 13-18

'Emotional Abuse and Neglect: a time for reappraisal

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000)

Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd

www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/childrenfirst/publications/frameworkfortheassessmentofchild

Marchant, R. (2001)'The Assessment of Children with Complex Needs', in Howarth, J. (ed)(2001) 'The Child's World: Assessing Children in Need', London, Jessica Kingsley.

Rutter M, (1998)

Developmental catch-up, and deficit, following adoption after severe global privation, Journal of Child Psychology and Psychiatry, 465-476

Silvie Boronick (2007)

Briff ymchwil Amddiffyn Plant yr NSPCC: Child Neglect

www.nspcc.org.uk/inform/research/briefings

Stein Met al 2009

Neglected Adolescent – Literature Review

www.publications.dcsf.gov.uk